**PHILIP:** *Diolch i Efengyl Mathew, Owain Llŷr Evans (Minny Street, Caerdydd), Gwilym Herber Williams, ID Hooson, Reginald Heber a Phantycelyn am ein harwain yn stori'r doethion.*

Cafodd Iesu ei eni ym Methlehem yn Jwdea, yn y cyfnod pan oedd Herod yn frenin. Ar ôl hynny daeth gwŷr doeth o wledydd y dwyrain i Jerwsalem i ofyn, “Ble mae'r un sydd newydd gael ei eni yn frenin yr Iddewon? Gwelon ni ei seren yn codi yn y dwyrain, a rŷn ni yma i dalu teyrnged iddo.”

**KATRIN:** Pan glywodd y Brenin Herod hyn, roedd wedi cynhyrfu'n lân. Roedd cynnwrf yn Jerwsalem hefyd. Felly galwodd Herod y prif offeiriaid a'r arbenigwyr yn y Gyfraith Iddewig i'w gyfarfod. Gofynnodd iddyn nhw, “Ble mae'r Meseia i fod i gael ei eni?” “Yn Bethlehem Jwdea,” medden nhw.

“Dyna ysgrifennodd y proffwyd: ‘Bethlehem, yn nhir Jwda — Nid rhyw bentref dinod yn Jwda wyt ti; achos ohonot ti daw un i deyrnasu, un fydd yn fugail i arwain fy mhobl Israel.’”

**CHRIS:** Ar ôl cael gwybod hyn, dyma Herod yn galw'r gwŷr doeth i gyfarfod preifat. Cafodd wybod ganddyn nhw pryd yn union oedd y seren wedi ymddangos. Yna dwedodd, “Ewch i Bethlehem i chwilio am y plentyn. Yna gadewch i mi wybod pan ddowch o hyd iddo, er mwyn i mi gael mynd i dalu teyrnged iddo hefyd.”

**TWM:** Ar ôl gwrando beth oedd gan y brenin i'w ddweud, i ffwrdd â nhw. Dyma'r seren yn mynd o'u blaen, nes iddi aros uwchben yr union fan lle roedd y plentyn. Roedden nhw wrth eu bodd! Pan aethon nhw i mewn i'r tŷ, dyna lle roedd y plentyn gyda'i fam, Mair, a dyma nhw'n disgyn ar eu gliniau o'i flaen a'i addoli. Yna dyma nhw'n agor eu paciau a rhoi anrhegion gwerthfawr iddo — aur a thus a myrr.

**CHRIS:**

“Y rhain o’r Dwyrain sy’n dod – i siarad
am seren wrth Herod:
Ymholi ar gamelod
am Un bach, y mwya’n bod.”

**KATRIN:**

“A dalwn ni iddo’r gorau o’n trysor,
llysiau o Edom yn offrwm i’n Duw,
gemau o’r mynydd a pherlau o’r dyfnfor,
myrr o’r anialdir, ac aur o Beriw?”

**PHILIP:**

"Taith am obaith y mabon, tân seren
Plentyn saer. Rhoi'r tirion
Yn lle'u cyfoeth gwna'r doethion.
I'r nef elai'r siwrnai hon."

**TWM:** Mae yna rywbeth egsotig am y sêr-ddewiniaid! Caspar ... Balthasar ... Melchior ... brenhinoedd dri, “ar eu camelod gwyn” yn chwilio am “Un bach, y mwya’n bod.”

Gwyddom y cyfan amdanynt heb wybod fawr ddim! Nid ydym wir yn gwybod eu henwau! Nid ydym wir yn gwybod mai tri ohonynt oedd! Nid ydym wir yn gwybod iddynt deithio ar gamelod, ac yn sicr ni wyddom beth oedd lliw'r camelod! Onid gwell fyddai canolbwyntio ar beth y gwyddom yn bendant amdanynt?

**CHRIS:** Gwyddom nad Iddewon oeddynt. Daethant o’r Dwyrain. Gofyn y sêr-ddewiniaid i Herod, heb unryw awgrym o berchnogaeth: “Ble mae’r hwn a anwyd i fod yn frenin yr Iddewon?”, nid "ein brenin ni".

Gwyddom hefyd iddynt ddod o’r Dwyrain: “daeth sêr-ddewiniaid o’r dwyrain ...”. Ble yn y Dwyrain? Persia? Babilon? Arabia? Iran, Irac a Saudi Arabia - o wledydd sydd heddiw o bwysigrwydd sylweddol yn nrama heddwch rhyngwladol yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r doethion yn dangos nad eiddo rhywrai dethol yw neges cariad - mae'n eiddo i bawb o bobl y byd. Bu i’r Doethion sylweddoli - a dyma yn anad dim a’i gwna yn wyr doeth - mai’r un bach hwn, yw’r “mwya’n bod”.

**KATRIN:** Daeth y Doethion, yn eu cyfoeth, eu grym a’u haddysg, a phlygu i addoli baban mewn preseb, mewn ystabl, ym Methlehem. Onid dyna’n union sy’n esbonio apêl oesol y stori hon: gwelwn ysblander cyfoeth, cadernid grym a dyfnder doethineb yn plygu o flaen plentyn y saer.

**PHILIP:** A felly pwy yw’r Doethion? Neb ond ein cyndadau. Fel ni, yn chwilio am ddealltwriaeth. Yn chwilio am ffordd i fyw yn well, i fod yn fwy na ni’n hunain. Mae’r Doethion wedi gwneud lle i ni wrth y preseb. Mae Melchior yn gwenu, Caspar a’i freichiau ar led mewn croeso a Balthasar yn symud ei anrheg o’r neilltu i wneud lle i ni gael gosod ein hanrheg ni. Mae’r tri Gwr Doeth yn deall, ac am i ni ddeall, mai gwaelod a gwraidd bywyd yw dilyn ôl traed plentyn saer - Duwdod di-nod, dynol. Dyma nos yn ddydd ... ffydd yn ffaith ... doethineb ac ystyr.

**TWM:** Teithiodd y Doethion yn bell! Byddai teithio o’r dwyrain i Fethlehem dipyn haws heddiw! Dychmygwch am eiliad bod gan Caspar, Balthasar a Melchior TomTom (neu TwmTwm, hyd yn oed!) Byddai GPS siwr o fod wedi bod o gymorth mawr i’r “brenhinoedd dri yn ceisio crud Brenin brenhinoedd yr holl fyd.”

“At Herod’s Palace, turn left, and proceed 9 miles to Bethlehem ... Then you will have arrived at your destination!”

**KATRIN:** Dychmygwch! Bob dydd, trwy’r dydd mae technoleg GPS yn plethu ynghyd dau beth rhyfedd a rhyfeddol! Yn gyntaf, cant a mil o negeseuon o’r cannoedd o loerennau sydd, 11,000 milltir i ffwrdd, yn ymdroi o gwmpas ein byd. Yn ail, gwybodaeth manwl gywir o’r 63 biliwn o filltiroedd o ffyrdd dros y byd. Gan glymu’r ddau yn un, mae GPS yn sicrhau ein bod ni a’n tebyg, troad dieithr wrth droad dieithr yn cyrraedd pen ein taith yn ddiogel.

Byddai wedi bod yn hawdd i deithio o'r dwyrain i Fethlehem Nadolig 2013! Ond arhoswch eiliad! Hyd yn oed pe byddai gan y Doethion TomTom neu Garmin, ofer fyddai'r dechnoleg. Pam? Wel oherwydd mai DILYN oedd hanes y Doethion! ... "canys gwelsom ei seren Ef yn y dwyrain". Seren DDENU oedd hon, seren oedd yn annog y tri, cam wrth gam, ymlaen. Hwythau'n dilyn HEB WYBOD I BLE 'roeddent yn mynd. Mae GPS yn dda i ddim byd o gwbl, os na wyddoch I BLE i fynd! Rhaid yw i'r TomTom neu'r Garmin cael gwybod 'A' a 'B' eich siwrnau; ni all gorau y technoleg orau eich harwain os na wyddoch ble anelwch at gyrraedd!

**CHRIS:** Bob Nadolig, dibynnwn ar fath o GPS. Erbyn 25 Rhagfyr mae'n fwriad gennym, bob blwyddyn, cyrraedd rhywle'n benodol: y Nadolig Llawen! Nadolig â phawb o'n hanwyliaid yn fodlon eu byd ac yn ddedwydd eu byw. Er na ellir gwarantu eira ar lawr, anelwn am Nadolig sy'n dymhorol oer a rhewllyd, lle mae trwynau a chlustiau coch, a thanllwyth tân yn y grât. Anelwn at agosatrwydd teulu, cynhaliaeth cyfeillgarwch; cysur atgofion a gobeithion am yfory ymhlyg y naill yn y llall. Rhaid prynu anrhegion a chardiau, gosod y goeden a stwffio'r twrci, cynnal cyngherddau ysgol ac eglwys. Credwn mai dilyn cyfarwyddiadau ein GPS dynol yw'r ffordd i gyflawni hyn i gyd, i gael popeth yn ei le am y Nadolig perffaith. Gobeithwn, rhyw ben Dydd Nadolig i gael clywed y geiriau: "You have reached your destination".

**PHILIP:** Ond ai dyma yw'r Nadolig cyfan? Nid o bell ffordd! Y Nadolig yw'r daith ysbrydol i Fethlehem - fel stori'r Doethion - mynd i Fethlehem a chanfod cariad ac ystyr - canfod ni ein hunain - mewn baban bach, mewn preseb. Er mwyn cyrraedd y preseb, nid oes angen yr un GPS arnom. Yn wir, fyddai'n well ein bod yn datgysylltu GPS traddodiad a hen arfer; datgysylltu GPS hen ddisgwyliadau a dyheadau; datgysylltu ein GPS personol - ein huchelgais – beth bynnag y bo.

Yn hytrach, beth am ymddiried mewn seren sy'n aros yn amyneddgar a'n barhaus, i'n harwain yn ôl traed mab y saer: "... ac wele, y seren a welsant yn y dwyrain a aeth o'u blaen hwy, hyd oni ddaeth hi a sefyll goruwch y lle yr oedd y mab bychan".

**CÂN (Chris, Katrin a Twm yn canu'r garol Gymraeg; Philip yn canu'r garol Tsiec)**

C/K/T: Tri ŷm ni o'r Dwyrain draw,
*Ph: My tři králové jdeme k vám,*
C/K/T: Dygwn roddion yn ein llaw,
*Ph: štěstí, zdraví vinšujem vám.*
C/K/T:Dros fynyddoedd, trwy ddyffrynoedd
*Ph: štěstí, zdraví vinšujem vám.*
C/K/T: Canlyn a wnawn neb fraw.

C/K/T: Atgyfododd, torrodd gwawr,
*Ph: A my taky vystupujem*
C/K/T: Brenin, Duw, ac Aberth mawr,
*Ph: a Nový rok vám vinšujem!*
C/K/T: Haleliwia, Haleliwia,
*Ph: a Nový rok vám vinšujem!*
C/K/T: Canu mae daear lawr.

Pawb:
O-O! Seren ryfedd, seren nos,
Seren freiniol, brydferth dlos,
I'r Gorllewin, wrth dy ganlyn,
štěstí, zdraví vinšujem vám.